# Cynllun Ieithoedd Swyddogol - Asesiad Effaith Cydraddoldeb

7 Awst 2017

**Cais am wybodaeth**

Diolch am eich cais, a ddaeth i law ar 14 Gorffennaf, pan wnaethoch ofyn:

1. *Am gopi llawn o'r 'Asesiad Effaith Cydraddoldeb' a oedd yn cefnogi penderfyniad Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn ddiweddar i ofyn i holl staff y Cynulliad "gael lefel o ddealltwriaeth sylfaenol o'r Gymraeg". Adroddir bod hyn yn berthnasol i bob staff newydd o 2018 ymlaen, ac i bob staff sy'n ceisio dyrchafiadau mewnol o'r dyddiad hwn.*
2. *Am ddadansoddiad o niferoedd y staff ym mhob gradd a gyflogir gan y Cynulliad, a nodir fel rhai sy'n siarad Cymraeg (ar ba lefel bynnag o gymhwysedd).*

Fe welwch ein hymateb i'ch cwestiynau isod.

1. *Am gopi llawn o'r 'Asesiad Effaith Cydraddoldeb' a oedd yn cefnogi penderfyniad Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn ddiweddar i ofyn i holl staff y Cynulliad "gael lefel o ddealltwriaeth sylfaenol o'r Gymraeg". Adroddir bod hyn yn berthnasol i bob staff newydd o 2018 ymlaen, ac i bob staff sy'n ceisio dyrchafiadau mewnol o'r dyddiad hwn.*

Yn ddiweddar, cyhoeddwyd copi o'r Asesiad Effaith Cydraddoldeb (EQIA) mewn perthynas â Chynllun Ieithoedd Swyddogol Comisiwn y Cynulliad ar dudalennau Amrywiaeth a Chynhwysiant gwefan Comisiwn y Cynulliad. Roedd paratoi EQIA yn rhan annatod o gynllunio a datblygu'r Cynllun Ieithoedd Swyddogol newydd. Mae'r ddogfen yn nodi nifer o risgiau a chamau lliniaru a nodwyd, i sicrhau nad yw'r themâu ar gyfer gwelliant yn y Cynllun yn cael effaith andwyol ar y gymuned ehangach. Fe'i dilyswyd yn annibynnol gan sefydliad cydraddoldebau allanol.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Bae Caerdydd
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn / Tel: 0300 200 6544
E-bost/Email: MynediadAtWybodaeth@Cynulliad.cymru
Assembly-Accesstoinformation@assembly.wales

**Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg/We welcome correspondence in both English and Welsh**

2. *Am ddadansoddiad o niferoedd y staff ym mhob gradd, a gyflogir gan y Cynulliad, a nodir fel rhai sy'n siarad Cymraeg (ar ba lefel bynnag o gymhwysedd).*

Nid yw'r wybodaeth y gofynnir amdani ar lefelau sgiliau ieithyddol fesul gradd ar gael gennym. Fodd bynnag, cynhaliodd Comisiwn y Cynulliad archwiliad sgiliau iaith yn 2015. Cwblhaodd 374 o aelodau'r staff yr arolwg, ac o'r rheiny a gwblhaodd yr arolwg, dywedodd 291 fod ganddynt lefel o Gymraeg lafar a oedd yn amrywio rhwng 'ychydig' i 'rhugl'.

Ystyriwyd eich cais yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth. Mae'r cod wedi'i gyhoeddi ar ein gwefan ynwww.cynulliadcymru.org/cy/abthome/about_us-commission_assembly_administration/abt-foi/Pages/abt-foi-cop-pub.aspx Rhowch wybod imi os oes gennych unrhyw ymholiadau ynghylch yr ymateb hwn. Os credwch fod gennych achos dros gwyno, dilynwch y canllawiau ar ddiwedd y llythyr hwn.

Yn gywir

**Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

A oes gennych achos dros bryderu neu gwyno am yr ymateb i'ch cais am wybodaeth?

Os nad wyf wedi dilyn y Cod yn briodol yn eich barn chi neu os nad ydych yn credu fy mod wedi cadw at y gyfraith berthnasol, gallwch gwyno'n ffurfiol i Brif Weithredwr a Chlerc Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym Mae Caerdydd. Mae egwyddorion trefn gwyno'r Cynulliad yn y Cod Ymarfer ar Gwynion ar gael ar ein gwefan yn http://www.assembly.wales/cy/help/contact-the-assembly/con-complaint/Pages/con-complaint-procedure.aspx. Rhowch wybod imi os hoffech gael copi caled.

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae'r hawl gennych i wneud cais uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy ddefnyddio'r cyfeiriad a ganlyn:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF